

**EIN
PENSIWN**



**WEDI'I
DORRI.**

**Cefnogwch ein streic
i amddiffyn USS**

UCU

University and College Union
Undeb Prifysgol a Choleg Cymru

PAM YDYN NI'N STREICIO

Staff prifysgolion ac aelodau o Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) ydym ni ac rydym yn gweithredu'n ddiwydiannol i amddiffyn ein hawl i bensiwn teg. Mae cyflogwyr mewn prifysgolion am roi diwedd ar sicrwydd pensiynau a lleihau incwm ymddeol pawb.

PENSIYNAU DAN FYGYTHIAD

Ers talwm, mae staff y Brifysgol wedi cael cyflog is na phroffesiynau medrus tebyg, yn rhannol gan yr oedd gennym bensiwn gweddus. Nawr mae ein hawl i ymddeoliad haeddiannol dan fygythiad.

WBETH FYDDAI CYNIGION EITHAFOL Y CYFLOGWYR YN EI OLYGU

- Byddai pensiynau terfynol yn dibynnu ar berfformiad y farchnad stoc yn hytrach nag ar gyfraniadau.
- 20%-40% o ostyngiad mewn buddion ymddeol gan ddibynnu ar eich graddfa a hyd eich gwasanaeth. Mae disgwyl i ddarlithydd cyffredinol gollu tua £10,000 y flwyddyn.
- Y pensiynau gwaethaf yn y sector addysg, sy'n llawer gwaeth na'r rhai sydd ar gael i athrawon ysgol a staff mewn prifysgolion 'newydd'.
- Argyfwng o ran recriwtio a chadw staff wrth iddynt chwilio am well diogelwch ariannol yn rhywle arall.

MYND AR STREIC YW'R CAM OLAF BOB TRO

Does dim gweithiwr proffesiynol proffesiynol am fynd ar streic, ond hefyd, rydym yn haeddu diogelwch hirdymor ac mae ein myfyrwyr yn haeddu staff sy'n gallu canolbwyntio'n llwyr ar eu swydd. Rydym wedi galw am drafodaethau pellach gyda'r cyflogwyr ond canlyniad siomedig y trafod oedd rhoi'r newidiadau ar waith.

Mae'r staff yn teimlo'n ddiogel a'u bod wedi cael eu bradychu, ond hyd yn oed nawr, rydym yn galw ar arweinwyr prifysgolion i weithio gyda ni i ddod o hyd i ateb ac i osgoi tarfu eang ar ein myfyrwyr.

CEFNOGWCH EIN STREIC

Pleidleisiodd mwyafrif llethol aelodau UCU dros y gweithredu hwn a chafwyd y nifer fwyaf erioed o bleidleiswyr yn hanes yr undeb hwn. Doedd dim dewis gennym ond gweithredu'n ddiwydiannol ac i dynnu'n ôl yr ewyllys da y mae'r brifysgol yn dibynnu arno ond wedi ei gymryd yn ganiataol.

Sefwch gyda ni a chefnogwch ein streic dros bensiwn teg.

<https://www.ucu.org/strikeforuss>

